CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 8fed o Fai 2018 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa Felinheli am 6:30 yn yr hwyr.

YN BRESENNOL

Daniel Williams	Einir Coates
Gruff John	Nerys John
Iestyn Harris	Eifion Williams
Aled Emyr	
Iestyn Harris	
Swyddog Ariannol: Wynne Barton	Cynghorydd Sir Gareth Griffiths

1.0	**GAIR O GROESO A SYLWADAU AGORIADOL**	
	Agorwyd y cyfarfod gan y Clerc esboniodd bod y Cyngor yn dechrau blwyddyn newydd a bod angen Cadeirydd. Cynigwyd bod Daniel Llewelyn Williams yn parhau i fod yn Gadeirydd. Roedd pawb yn gytûn. Cymerodd y Cynghorydd Daniel Llewelyn Williams ei le fel y Cadeirydd ar ben y bwrdd.	
2.0	**ETHOL CADEIRYDD**	
	Cynigwyd bod Daniel Williams yn parhau i fod yn Gadeirydd. Roedd pawb yn gytûn. Cymerodd y Cynghorydd Daniel Llewelyn Williams ei le fel y Cadeirydd ar ben y bwrdd.	
3.0	**YMDDIHEURIADAU**	
3.1	Mair Bebb Jones, Casi Roberts, Gruff John	
3.2	**Ymddiswyddiad:** derbyniwyd ymddiswyddiad y Cynghorydd Peter Simpson. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi diolch i Peter am ei wasanaeth dros rhai blynyddoedd ac wedi derbyn ei ymddiswyddiad a bod Peter yn barod i helpu os bu angen.	
4.0	**DERBYN CWESTIYNAU ODDI WRTH AELODAU O'R CYHOEDD**	
	Nid oedd aelodau o'r gymuned yn bresennol.	
5.0	**ETHOL IS-GADEIRYDD**	
	Eglurodd y Cadeirydd bod angen ethol Is-Gadeirydd. Cynigwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Iestyn Harris; roedd yn barod i ymgymryd â'r swydd. Ni chynigwyd aelod arall am y swydd o is-gadeirydd felly etholwyd Iestyn Harris yn unfrydol am y flwyddyn 2018-2019.	
6.0	**ANERCHIAD Y CADEIRYDD**	
	Diolchodd y Cynghorydd Daniel Williams i'r aelodau am eu gwasanaeth. Dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at y Cyngor wneud gwaith da pellach. Mae gwaith wedi ei wneud ar y Neuadd ond mae mwy o waith i'w gwblhau eto eleni. Diolchodd i'r rhai sydd wedi bod yn ymwneud a phrosiectau.	

Heather Lynne Jones

	Cyfeiriodd bod sialensiau o flaen y Cyngor yn y dyfodol a bod angen gweithio i oresgyn y rhain. Diolchodd i aelodau o'r gymuned am blannu coed a rhoi o'u gwirfodd i godi sbwriel. Yn ystod y 12 mis roedd rhai blaenllaw o fewn y pentref a chyn aelodau'r Cyngor wedi eu colli. Dangosodd y Cyngor eu teyrnged drwy ennyd o ddistawrwydd. Estynnwyd cydymdeimlad i'r teuluoedd.	
7.0	**APWYNTIO CYNRYCHIOLWYR**	
7.1	**Llywodraethwyr yr Ysgol** - mae'r Cynghorydd Iestyn Harris gyda blwyddyn o'i dymor fel Lywodraethwr yn weddill. Cafwyd gwybodaeth bod angen dau lywodraethwr ar y bwrdd llywodraethwyr, a rheiny heb fod yn rhieni i blant yn mynychu'r ysgol; aelodau o'r gymuned.	
7.2	**Clwb Pêl Droed Ieuenctid** – etholwyd Gruff John fel cynrychiolydd.	
7.3	**Unllais Cymru** - Cynrychiolir y Cyngor ar Unllais Cymru gan Iestyn Harris a Nerys John.	
8.0	**ETHOL AELODAU A'R IS-BWYLLGORAU**	
8.1	**Neuadd Goffa, Cloc** - Dewiswyd Daniel Williams, Iestyn Harris, Gruff John, Casi Roberts ac Aled Emyr ar is-bwyllgor y Neuadd	
8.2	**Mynwent, Maes Parcio, Lon Las** - Dewiswyd Eifion Williams, a Casi Roberts.	
8.3	**Llwybrau, Cysgodfannau, Meinciau a Safle Moriah –** Dewiswyd Gruff John, Nerys John a Sarah Riley a Einir Coates.	
8.4	**Prosiectau Cymunedol** – Dewiswyd – Nerys John, Casi Roberts a Sara Riley.	
8.5	**Gwefan –** Dewiswyd Casi Roberts, Aled Emyr, Gruff John, Sarah Riley a Mei Gwilym.	
9.0	**PENDERFYNU AR NOSON A DYDDIADAU CYFARFODYDD MISOL Y CYNGOR**	
	Penderfynwyd parhau a'r trefniad cyfarfod misol presennol gyda gwyliau ym Mis Awst.	
10.0	**SEDDI GWAG**	
	Mae dwy sedd wag ar y Cyngor. Y Clerc i wneud trefniadau i hysbysu'r achos er mwyn dod o hyd i gynrychiolwyr newydd.	
11.0	**ARCHWILIWR MEWNOL**	
	Cadarnhawyd bod Eluned Fôn Jones o Gyngor Gwynedd wedi ei apwyntio fel archwiliwr mewnol. Mae llythyr apwyntiad gyda manylder yr hyn sydd ei angen eisoes wedi ei anfon a'i dderbyn.	
12.0	**ADRODDIAD CYLLID**	
12.1	Cyflwynwyd yr Adroddiad Cyllidol 01/04/2017 - 31/03/2018 gan y Swyddog Ariannol. Cynigwyd ac eiliwyd yr adroddiad fel un cywir ac fe'i derbyniwyd a'u mabwysiadu yn unfrydol gan y Cyngor.	

12.2	Clustnodwyd yr arian canlynol ar gyfer y gweithgareddau canlynol: £12,000 ar gyfer Y Neuadd, £10,000 Offer cae chwarae/prosiectau cymdeithasol, £4000 Cysgodfan Bws Aberpwll, £2,500 Cynnal a chadw llwybrau a £5000 toiledau.	
13.0	**POLISÏAU'R CYNGOR**	
	Fe fabwysiadwyd y canlynol unwaith yn rhagor: Llawlyfr y Cyngor Rheoliadau Ariannol Asesiadau Risg Rheolaeth fewnol	
14.0	**ADRODDIAD PWYLLGOR CYFLOGAETH**	
	Roedd yr Is-bwyllgor Cyflogaeth wedi cyfarfod ac wedi gwneud y penderfyniad i godi cyflogau. Roedd y cyflogau bellach ar raddau rhesymegol ar ôl derbyn adroddiad allanol. Mae cytundebau'r gweithwyr wedi eu hystyried.	
	Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben oddeutu 7.45 o'r gloch.	